**Datganiad i'r Wasg**

## EMARGO: 11:00 16 Ionawr 2026

# Ofnau y gallai cefnogaeth hanfodol i ddarllen yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tlotaf Cymru ddiflannu ynghanol ansicrwydd dros wariant i'r dyfodol

Mae BookTrust Cymru wedi rhybuddio y bydd miloedd o fabis a phlant bach ledled Cymru yn colli'u mynediad i gefnogaeth cyd-ddarllen cynnar hanfodol, gyda diwedd rhaglenni blaengar Dechrau Da, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i ariannu'r elusen yn uniongyrchol.

O 1 Ebrill 2026, bydd y cyllid sy'n cefnogi rhaglenni blynyddoedd cynnar dwyieithog BookTrust ar gyfer babis a phlant ifanc, gan gynnwys Dechrau Da a Pori Drwy Stori, yn cael ei ddargyfeirio.

Mae'r penderfyniad hwn yn golygu y bydd buddsoddiad mewn cefnogaeth sefydledig ac effeithiol cyffredinol a thargedig ar gyfer plant, drwy gydol eu 1,000 dydd cyntaf, yn cael ei ddefnyddio yn lle gan Adnodd, i gomisiynu adnoddau, yn eu nod i gefnogi dysgu ac addysgu'r Cwricwlwm i Gymru.

Yng Nghymru, ble mae dros chwarter ein plant yn byw mewn tlodi, mae'r elusen o'r farn fod rhaglenni Dechrau Da yn chwarae rhan hanfodol mewn lleihau anghydraddoldebau. Mae'r adroddiad effaith diweddaraf ganddo'n dangos fod 84% o deuluoedd incwm isel yn darllen mwy ar ôl derbyn cefnogaeth. I lawer o deuluoedd, mae'r rhaglen yn darparu llyfrau cyntaf eu plant.

Bob blwyddyn, bydd **dros 60,000 o deuluoedd**, gyda thros deiran ohonynt yn byw mewn tlodi, yn derbyn cefnogaeth wedi'i deilwra drwy gydol blynyddoedd cynnar y plant, oddi wrth un o raglenni dwyieithog Dechrau Da BookTrust Cymru.

Yn ôl Sioned Jones, Cyfarwyddwr BookTrust Cymru: “Cymru fydd yr unig genedl yn y Deyrnas Unedig fydd ddim yn cynnig rhaglen Dechrau Da Babi i unrhyw blentyn newydd-anedig yn sgil hyn. Mae ymchwil yn dangos fod cael teuluoedd i gyd-ddarllen o'r cyfnod cynharaf posib yn dod â manteision unigryw, ar unwaith ac yn yr hirdymor, yn eu sgil.

“Mae dod â rhaglenni cyd-ddarllen gwerthfawr sy'n creu argraff, heb gynllun pontio clir a ymgynghorwyd, yn bygwth rhoi babis a phlant dan anfantais am flynyddoedd i ddod.”

Mae BookTrust Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r asesiadau hawliau plant ac argraff a arweiniodd at ei benderfyniad i ddod a Dechrau Da i ben yng Nghymru, a darparu eglurder ar sut y gellir sicrhau parhad i gefnogaeth ar gyfer cyd-ddarllen yn y blynyddoedd cynnar y tu hwnt i fis Ebrill 2026.

Dywedodd Nicola Davies, Laureate Plant Cymru ar gyfer 2025-2027: “Rydw i wedi fy syfrdanu i glywed fod Llywodraeth Cymru’n torri cyllid i raglen hir-sefydledig sydd wedi galluogi i’r plant tlotaf yng Nghymru ddechrau ar eu taith ddarllen ers blynyddoedd. Mae BookTrust Cymru’n darparu cefnogaeth arbenigol, wedi’i dargedu, yn Gymraeg a Saesneg, er mwyn rhoi’r deunyddiau a’r sgiliau i rieni a gofalwyr er mwyn eu galluogi i ddarllen i fabis a phlant bach. Mae’r profiad cynnar hwn o lyfrau’n sail i lwyddiant addysgol yn ddiweddarach, ac mae’n gonglfaen i symudedd cymdeithasol. Mae’r syniad y gellir atgynhyrchu rhaglenni profedig yr elusen, a’r ffordd y maen nhw’n cael eu darparu drwy rwydwaith aeddfed o dimau ar y rheng flaen, dros nos, yn ffôl. Peth torcalonnus yw ystyried y bydd effeithiau’r penderfyniad hwn yn cael eu teimlo waethaf gan blant mwyaf bregus Cymru.”

Mae BookTrust Cymru wedi gweithio yng Nghymru ers dros 25 mlynedd gan ddarparu rhaglenni cyd-ddarllen dwyieithog sydd wedi’u gwreiddio’n ddwfn, ar gyfer babis a phlant wrth iddyn nhw dyfu o’u genedigaeth hyd at bum mlwydd oed.

Mae’r daith honno'n dechrau gyda rhaglen Dechrau Da Babi, sy’n rhoi llyfrau i deuluoedd, ynghyd â chymorth a chyngor ar ddarllen yn gynnar, a roddir yn aml yn ystod un o’r gwiriadau iechyd sy’n digwydd yn ystod naw mis cyntaf bywyd babi.

Canfu ymchwil yr elusen fod 72% o rieni a gofalwyr yn dweud fod Dechrau Da Babi wedi peri iddyn nhw deimlo’n fwy hyderus ynghylch darllen gyda’u plant, a dywedodd 60% ei fod wedi’u sbarduno i ddarllen / rhannu straeon yn Gymraeg yn amlach gyda’u plentyn nag y bydden nhw fel arall.

Mae rhaglenni Dechrau Da, sy’n cael eu haddysgu gan dystiolaeth a’u cyd-gynllunio gyda phartneriaid a theuluoedd, yn darparu llyfrau perthnasol i ysbrydoli, ac adnoddau darllen, ynghyd ag arweiniad a chefnogaeth i ofalwyr. Cânt eu darparu mewn partneriaeth â thimau rheng flaen o feysydd addysg, llyfrgelloedd, awdurdodau lleol a gofal plant, y bydd BookTrust Cymru’n eu cefnogi yn eu gwaith.

Meddai Delyth Huws, y cydlynydd Dechrau Da a wreiddiwyd yn yr awdurdod lleol yng Ngheredigion: “Dwi wedi gweld â’m llygaid fy hunan sut y mae’r rhaglenni’n rhoi hyder i deuluoedd ddarllen gyda’u plant, gan droi straeon yn enydau o chwilfrydedd a llawenydd yn hytrach na rhywbeth y mae’n rhaid ei wneud. Mae’n agor y drws i rieni a all fod yn teimlo’n ansicr am ddarllen, gan ddangos mai’r pwynt yw bod yn chwareus a chreu cysylltiadau, nid dilyn y naratif air am air. Mae’r effaith yn glir.”

Mae gwaith BookTrust Cymru’n cefnogi ystod o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhaglen y 1000 Dydd Cyntaf, Plentyn Iach Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), Cymraeg 2050, y Cwricwlwm i Gymru a Chymru Wrth-hiliaeth.

Aeth Sioned Jones ymlaen i ddweud: “Mae ein dull a arweinir gan newid ymddygiad yn cefnogi teuluoedd i ddarllen mwy gyda’u plant drwy gydol y blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Mae’r rheiny yr ydym ni’n eu cefnogi’n dweud wrthym fod ein rhaglenni’n gwneud

gwahaniaeth. Byddai dod â Dechrau Da i ben yng Nghymru, heb ddim cynlluniau clir o ran sut y cyflawnir ei ddarpariaeth hanfodol wedyn, yn effeithio ar y teuluoedd tlotaf yn gyntaf, ac yn fwyaf."

**DIWEDD**

**I gael mwy o wybodaeth ac i drefnu cyfweliadau â'r cyfryngau, cysylltwch â Matthew Parr (matthew.parr@workingword.co.uk / 07506 125 016 / 02920 455 182) - Daniel Heard (daniel.heard@workingword.co.uk / 07948 075555 / 02920 455 182)**

**Nodiadau i'r Golygydd**

Am BookTrust

Mae BookTrust yn annog plant i ddarllen o'u dyddiau cynharaf, yn enwedig blant o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd bregus. Fel elusen ddarllen plant fwyaf y DU, gwyddom fod plant sy'n darllen yn rheolaidd yn profi gwell llesiant meddyliol. Maen nhw'n ffurfio cysylltiadau gwell a pherthynas gryfach ag eraill. Maen nhw'n gwneud yn well yn yr ysgol ac yn fwy creadigol. Dyma pam rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd, gan eu cefnogi i ddechrau rhannu straeon a llyfrau gyda'i gilydd o'r oedran cynharaf posibl. Rydyn ni'n gweithio ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon trwy gyfrwng dros 30,000 o bartneriaid lleol, er mwyn cyrraedd at 1.4 miliwn o blant bob blwyddyn.

Mae BookTrust Cymru yn dîm ymroddedig a leolir yng Nghaerdydd, sy'n sicrhau cefnogaeth i deuluoedd a phartneriaid ledled Cymru. Maen nhw'n gwneud hynny trwy ddarparu rhaglenni a gwaith sy'n ddiwylliannol berthnasol, trwy ddylanwadu ar bolisi datganoledig, adeiladu partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cryf, a thrwy ymgysylltu â gwaith codi arian ac eiriol. Mae'r tîm yn gweithredu fel llais yr elusen yng Nghymru, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cymru a chynyddu'r effaith fwyaf trwy strategaethau sy'n cael eu teilwra. Cyflwynir rhaglenni BookTrust Cymru yn ddwyieithog, ar gorn blynyddoedd lawer o brofiad o gynhyrchu llyfrau a deunyddiau rhaglen o ansawdd uchel yn y modd hwn, yn ogystal â chynhyrchu cefnogaeth a hyfforddiant i'r gweithlu ar gyfer Ymwelwyr Iechyd, Llyfrgellwyr, gweithwyr Blynyddoedd Cynnar a lleoliadau cymunedol. Mae'r dull hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyd-gynllunio gyda theuluoedd a phartneriaid, wedi arwain at greu effaith sylweddol.

Drwy gysylltu ein rhaglenni yng Nghymru gyda gwaith traws-sefydliad ychwanegol, mae graddfa BookTrust, gan weithio ar draws tair o wledydd Prydain, yn darparu mwy o werth i blant, theuluoedd a phartneriaid, ac arianwyr yng Nghymru. Un o fanteision hyn yw'r arbedion maint o ran logisteg a phrynu y gallwn ni eu cyflawni, sy'n ein galluogi i gynnig ymyriadau o ansawdd uchel mewn modd cost-effeithiol, gan gefnogi'r diwydiant cyhoeddi Cymreig a Chymraeg drwy gaffael lleol. Mae hefyd yn cynnig capasiti i ddal risg,

oherwydd y buddsoddiadau sydd angen eu gwneud cyn cyflenwi, er mwyn sicrhau fod y rhaglen yn cael ei darparu'n gyson ac amserol.

Adroddiad Effaith.pdf

Darllen-yn-y-Blynyddoedd-Cynnar.-Pam-mae-dechrau-darllen-ar-y-cyd-yn-bwysig-a-rol-Dechrau-Da-Babi.pdf